Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

# Mesurau Monitro Cydraddoldeb Hil

## Ethnigrwydd ymgeiswyr, myfyrwyr a staff yn narparwyr Addysg Uwch Cymru ar gyfer blynyddoedd academaidd 2016/17 i 2021/22: adroddiad cyntaf

2016/17 i 2021/22

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

www.hefcw.ac.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg | This document is also available in Welsh

**Mesurau Monitro Cydraddoldeb Hil: Ethnigrwydd ymgeiswyr, myfyrwyr a staff yn narparwyr Addysg Uwch Cymru ar gyfer blynyddoedd academaidd 2016/17 i 2021/22; adroddiad cyntaf**

## Cyd-destun a Sylwebaeth

## 1. Cyflwyniad

1.1. Diben gweithgarwch monitro data cydraddoldeb hil CCAUC yw bod â dealltwriaeth fanylach am amrywiaeth y boblogaeth addysg uwch yng Nghymru (yn staff a myfyrwyr).

1.2. Bydd ein gweithgarwch monitro cydraddoldeb hil yn goleuo ein camau gweithredu gan gynnwys, ymhlith ystyriaethau eraill, ein datblygiadau polisi gwrth-hiliaeth ac ymrwymiadau ein cynllun cydraddoldeb strategol. Bydd y monitro'n cyfrannu at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru (y Cynllun), ein dyletswyddau dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ein bwriad yw gweithio gyda darparwyr addysg uwch i newid y diwylliant mewn addysg uwch, mynd i'r afael â hiliaeth a sicrhau cydraddoldeb hil.

1.3. Yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mae Llywodraeth Cymru'n cadarnhau ei disgwyliadau: 'y bydd y sector AU yn gwneud cynnydd cyflym a parhaus i fynd i'r afael â hiliaeth a gwella profiad staff a myfyrwyr ethnig lleiafrifol ym maes AU' (t.42). Fel rhan o gamau gweithredu i gyflawni hyn, mae'r Cynllun yn nodi: 'Er mwyn mesur newid dros amser, rhaid inni fynd ati ar fyrder i wella cyflawnder y data ar ethnigrwydd mewn addysg a'r defnydd a wneir o'r data hynny. Mae angen inni ddefnyddio'r data sydd ar gael ar hyn o bryd mewn ffordd fwy systemig' (t.41). Ceir cam gweithredu ar addysg uwch sy'n golygu 'Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb hil a mesurau perfformiad ar gyfer y sector, gan gynnwys canlyniadau i fyfyrwyr a staff' o 2023.

1.4. Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi camau gweithredu i'w cymryd rhwng mis Mehefin 2022 a mis Mehefin 2024. Mae'r data hyn a'r naratif sy'n cyd-fynd â hwy'n darparu meincnod o amrywiaeth addysg uwch yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud i wella amrywiaeth addysg uwch yng Nghymru ac mae'r data hyn yn cyfrannu at ein tystiolaeth i weithredu.

1.5. Gall ein gweithgarwch monitro cydraddoldeb hil ddatblygu ac esblygu dros amser, mewn ymgynghoriad â darparwyr a phartïon eraill sydd â buddiant, gan ystyried adolygiadau o'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a chan gynnwys wrth i ni bontio i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn). Bydd gan y Comisiwn gyfrifoldebau am y sector ôl-16 cyfan a bydd yn cyflawni dyletswyddau penodol Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 gan gynnwys hybu cyfle cyfartal, rhoi anogaeth i gyfranogi mewn addysg drydyddol ac un o'r amodau cofrestru sy'n ymwneud â lles myfyrwyr.

## 2. Monitro

2.1. Mae’r ddogfen hon yn darparu peth cyd-destun a sylwebaeth mewn perthynas â’r wybodaeth monitro data cydraddoldeb hil mewn addysg uwch yr ydym wedi’i chyhoeddi a dylid ei darllen ar y cyd â’r wybodaeth fonitro hon. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â chylchlythyrau W22/28HE a W23/06HE gan CCAUC hefyd.

2.2. Mae’r wybodaeth hon mewn perthynas â monitro data cydraddoldeb hil mewn addysg uwch yn defnyddio data sy’n rhychwantu’r cyfnod rhwng 2016/17 a 2021/22. Mae’r adroddiad cyntaf hwn yn cwmpasu cyfnod pandemig Covid-19, sef 2020/21.

2.3. Rydym yn amcanu at ddefnyddio data sydd eisoes ar gael i ni, er enghraifft data unigoledig a gesglir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch HESA, neu byddwn yn defnyddio data sydd ar gael yn gyhoeddus megis data a ddelir gan UCAS, lle bynnag y bo’n bosibl, i leihau’r baich adrodd ar ddarparwyr addysg uwch. Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn yn Atodiad B sy’n darparu Gwybodaeth Dechnegol.

2.4. Mae data cyn dechrau mewn addysg uwch yn ymwneud ag ymgeiswyr i gyrsiau israddedig amser llawn yng Nghymru sy’n hanu o’r DU. Mae data myfyrwyr yn ymwneud ag israddedigion amser llawn a rhan-amser sy’n astudio yng Nghymru a hwythau’n hanu o’r DU oni nodir yn wahanol. Mae data staff yn ymwneud â’r holl staff mewn addysg uwch yng Nghymru gan gynnwys staff rhyngwladol. Mae’r data’n ddata wedi’i gydgrynhoi o’r holl brifysgolion yng Nghymru, gan gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru a thri choleg addysg bellach yng Nghymru a gyllidir yn uniongyrchol dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Mae’r sylwebaeth yn cyfeirio at y sefydliadau hyn fel darparwyr addysg uwch. Ceir rhestr o’r darparwyr addysg uwch hyn yn y rhestr termau.

2.5. Fel a nodir yng nghylchlythyr W22/28HE rydym yn monitro data ar lefel sefydliadau unigol, ond mae’r data yr ydym wedi’u cyhoeddi ar lefel sector Cymru yn unig. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd presenoldeb niferoedd bychain a’r angen i ymlynu wrth arferion rheolaeth ar ddatgelu data i osgoi datgelu gwybodaeth am unigolion. Dylid arfer pwyll wrth ddod i gasgliadau o’r data, a chydag unrhyw ddefnydd pellach o'r data, oherwydd y materion hyn. Ceir rhagor o wybodaeth am gyfyngiadau’r data, pa gamau gweithredu eraill yr ydym yn eu cymryd i ategu’r data a’n methodoleg rheolaeth ar ddatgelu data yn Atodiad B.

2.6. Caiff y mesurau perfformiad a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn eu rhestru yn Atodiad C wrth W23/06HE. Ceir dau fath o fesurau:

- mae’r math cyntaf yn bwrw golwg ar nifer yr unigolion o grŵp penodol yn ôl cefndir ethnig; ac
- mae’r ail fath yn bwrw golwg ar y bwlch diesboniad rhwng cyfran yr unigolion o grŵp penodol sy’n cyflawni rhywbeth a chyfran yr unigolion yn y grŵp hwnnw o gefndir ethnig penodol sy’n cyflawni’r un peth.

Caiff hyn ei egluro’n fwy llawn yn Atodiad B.

## 3. Cyd-destun a diben

3.1. Diben y gweithgarwch monitro data cydraddoldeb hil hwn yw bod â dealltwriaeth fanylach am amrywiaeth y boblogaeth addysg uwch yng Nghymru (yn staff a myfyrwyr) a chyfrannu at Cymru Wrth-hiliol.

3.2. Gall ein gweithgarwch monitro cydraddoldeb hil ddatblygu ac esblygu dros amser, mewn ymgynghoriad â darparwyr a phartïon eraill sydd â buddiant.

3.3. Cyhoeddir y dadansoddiad hwn yn dilyn ymgynghori ynghylch defnyddio data a dangosyddion trwy gylchlythyr CCAUC W22/28HE. Cyhoeddwyd ymatebion i'r ymgynghoriad yng nghylchlythyr CCAUC W23/06HE: Addysg uwch ddiogel a chynhwysol: cefnogi cydraddoldeb ac addysg amrywiaeth.

3.4. Yn y sylwebaeth hon rydym yn canolbwyntio ar rai agweddau ar y data sydd i'w gweld yn nodedig mewn rhyw ffordd. Wrth dynnu sylw at un grŵp ethnig penodol, nid ydym yn fwriadol yn anwybyddu nac yn amcanu at gelu'r data sy'n ymwneud ag unrhyw grŵp ethnig arall.

## 4. Data ar ymgeiswyr a cheisiadau ar gyfer ymgeiswyr sy'n hanu o'r DU i gyrsiau israddedig amser llawn mewn addysg uwch yng Nghymru

4.1. Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn ymwneud â data ynghylch ymgeiswyr a cheisiadau i gyrsiau addysg uwch israddedig, amser llawn yng Nghymru. Gall ymgeiswyr wneud hyd at bum cais i ddarparwyr addysg uwch yn y DU. Gweler yr wybodaeth a'r data a ddarperir yn nhablau 1-2 yn y dadansoddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

4.2. Ar gyfer ceisiadau i addysg uwch yng Nghymru, roedd nifer a chyfran y ceisiadau gan ymgeiswyr o bob cefndir ethnig lleiafrifol yn fwy yn 2022 nag yn 2016, gyda'r rhai o gefndir ethnig Asiaidd yn gweld y cynnydd uchaf yn y ddau ffigwr hyn, ac yna'r rhai o gefndir ethnig Cymysg. Cododd nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd o 5,725 yn 2016 i 8,285 yn 2022, ac fe gododd y gyfran o'r holl geisiadau a oedd gan ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd o 6.2 y cant i 8.4 y cant ar draws yr un cyfnod. Cododd nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig Cymysg o 2,780 yn 2016 i 4,430 yn 2022, ac fe gododd y gyfran o'r holl geisiadau a oedd gan ymgeiswyr o gefndir ethnig Cymysg o 3.0 i 4.5 y cant ar draws yr un cyfnod.

4.3. Mae'r stori gyda ffigyrau'r ymgeiswyr yn debyg i'r un gyda cheisiadau, gyda nifer a chyfran yr ymgeiswyr o bob cefndir ethnig lleiafrifol yn fwy yn 2022 nag yn 2016, ac ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd yn gweld y cynnydd mwyaf yn y ddau ffigwr, ac yna'r rhai o gefndir ethnig Cymysg. Cododd nifer yr ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd o 4,575 yn 2016 i 6,560 yn 2022, ac fe gododd y gyfran o'r holl ymgeiswyr a oedd o gefndir ethnig Asiaidd o 7.2 i 9.5 y cant ar draws yr un cyfnod. Cododd nifer yr ymgeiswyr o gefndir ethnig Cymysg o 2,185 yn 2016 i 3,400 yn 2022, ac fe gododd y gyfran o'r holl ymgeiswyr a oedd o gefndir ethnig Cymysg o 3.4 i 4.9 y cant ar draws yr un cyfnod.

## 5. Cyfraddau'r cynigion ar gyfer ymgeiswyr sy'n hanu o'r DU i gyrsiau israddedig, amser llawn mewn addysg uwch yng Nghymru

5.1. Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn ymwneud â'r cynigion y mae darparwyr addysg uwch yn eu gwneud i ymgeiswyr; gweler yr wybodaeth a'r data a ddarperir yn nhabl 3 yn y dadansoddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn. I gael eglurhad o sut y caiff bylchau eu mesur a'r hyn y mae bwlch negatif neu bositif yn ei olygu cyfeirier at Atodiad B.

5.2. Ceir bwlch (negatif) mawr rhwng y gyfradd gynigion ar y cyfan (cyfran y ceisiadau sy'n cael cynnig) a'r gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol Asiaidd, Du ac Arall[1] ym mhob blwyddyn yn y cyfnod. Mae hyn yn wir ar gyfer ymgeiswyr 18 oed ac ymgeiswyr o bob oed. Mae'r siartiau a ddarperir yn y dadansoddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn yn dangos hyn yn glir iawn. Enghraifft o hyn yw'r gyfradd gynigion yn 2021/22 ar gyfer cynigion gan ymgeiswyr 18 oed o gefndir ethnig Asiaidd, a oedd yn 68.9 y cant, tra bo'r gyfradd gynigion ar gyfer yr holl ymgeiswyr 18 oed yn 84.5 y cant. Mae'r gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr 18 oed o gefndir ethnig Asiaidd 15.6 pwynt canran yn is na'r gyfradd gynigion ar gyfer yr holl ymgeiswyr 18 oed yn 2021/22. Enghraifft arall yn 2021/22 yw'r gyfradd gynigion ar gyfer ceisiadau gan ymgeiswyr 18 oed o gefndir ethnig Du a oedd yn 70.4 y cant, sydd 14.1 pwynt canran yn is na'r gyfradd gynigion ar gyfer yr holl ymgeiswyr 18 oed yn 2021/22 (84.5 y cant).

5.3. Mae'r bwlch rhwng y gyfradd gynigion ar y cyfan a'r gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr o gefndir ethnig Du ar gyfer ymgeiswyr o bob oed yn sylweddol fwy na'r un bwlch ar gyfer ymgeiswyr 18 oed ym mhob blwyddyn yn y cyfnod. Mae'r siartiau a ddarperir yn y dadansoddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn yn dangos hyn yn glir iawn. Er enghraifft yn 2021/22, mae'r bwlch rhwng y gyfradd gynigion ar y cyfan ar gyfer ymgeiswyr 18 oed a'r gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr 18 oed o gefndir ethnig Du 14.1 pwynt canran islaw'r gyfradd gynigion ar y cyfan ar gyfer ymgeiswyr 18 oed, tra bo'r bwlch yn yr un flwyddyn rhwng y gyfradd gynigion ar y cyfan ar gyfer ymgeiswyr o bob oed a'r gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr o bob oed o gefndir ethnig Du 20.5 pwynt canran islaw'r gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr o bob oed. Roedd y sefyllfa ar gyfer ymgeiswyr Asiaidd yn wahanol. Roedd y bwlch rhwng y gyfradd gynigion ar y cyfan a'r gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd ar gyfer ymgeiswyr o bob oed ychydig yn llai na'r un bwlch ar gyfer ymgeiswyr 18 oed ym mhob blwyddyn yn y cyfnod. Er enghraifft yn 2021/22, mae'r bwlch rhwng y gyfradd gynigion ar y cyfan ar gyfer ymgeiswyr 18 oed a'r gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr 18 oed o gefndir ethnig Asiaidd 15.6 pwynt canran islaw'r gyfradd gynigion ar y cyfan ar gyfer ymgeiswyr 18 oed, tra bo'r bwlch yn yr un flwyddyn rhwng y gyfradd gynigion ar y cyfan ar gyfer ymgeiswyr o bob oed a'r gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr o bob oed o gefndir ethnig Asiaidd 14.4 pwynt canran islaw'r gyfradd gynigion ar y cyfan ar gyfer ymgeiswyr o bob oed.

[1] Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth sy'n egluro pam y defnyddir y term hwn a beth mae'n ei olygu yng nghyd-destun dadansoddi data. Rydym yn cydnabod ei fod yn derm y dadleuir yn ei gylch.

5.4. Rhaid cymryd gofal wrth ddehongli'r ffigyrau hyn gan y gall ymgeiswyr o rai cefndiroedd ethnig lleiafrifol fod yn fwy tebygol o ymgeisio am fathau penodol o gwrs, bod â mathau penodol o raddau darogan, ymgeisio i gyrsiau sydd â chystadleuaeth frwd am leoedd fel Meddygaeth, neu gynrychioli niferoedd bychain iawn o'i gymharu â nifer yr ymgeiswyr o'r lleiafrif ethnig mewn addysg uwch yng Nghymru.

## 6. Ymgeiswyr sy'n hanu o'r DU sy'n ennill lleoedd ar gyrsiau israddedig, amser llawn mewn addysg uwch yng Nghymru

6.1. Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn darparu gwybodaeth am 'ymgeiswyr a gafodd le', hynny yw ymgeiswyr sydd wedi bodloni amodau eu cynnig o le gan ddarparwr addysg uwch. Gweler yr wybodaeth a'r data a ddarperir yn nhabl 4 yn y dadansoddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

6.2. Mae ffigyrau am ymgeiswyr yn ennill lleoedd yn narparwyr addysg uwch Cymru'n adrodd stori debyg i ffigyrau am geisiadau ac ymgeiswyr i ddarparwyr addysg uwch Cymru, gyda nifer a chyfran yr ymgeiswyr o bob cefndir ethnig lleiafrifol a gafodd le'n fwy yn 2022 nag yn 2016, ac ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd a gafodd le'n gweld y cynnydd mwyaf yn y ddau ffigwr, ac yna'r rhai o gefndir ethnig Cymysg. Fe gododd nifer yr ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd a enillodd leoedd yn narparwyr addysg uwch Cymru o 1,065 yn 2016 i 1,520 yn 2022, ac fe gododd y gyfran o'r holl ymgeiswyr a enillodd leoedd yn narparwyr addysg uwch Cymru a oedd o gefndir ethnig Asiaidd o 4.6 i 6.6 y cant ar draws yr un cyfnod. Fe gododd nifer yr ymgeiswyr o gefndir ethnig Cymysg a enillodd leoedd yn narparwyr addysg uwch Cymru o 675 yn 2016 i 1,045 yn 2022, ac fe gododd y gyfran o'r holl ymgeiswyr a enillodd leoedd yn narparwyr addysg uwch Cymru a oedd o gefndir ethnig Cymysg o 2.9 i 4.5 y cant ar draws yr un cyfnod.

## 7. Dechreuwyr mewn addysg uwch israddedig amser llawn a rhan-amser yng Nghymru, sy'n hanu o'r DU

7.1. Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am y myfyrwyr hynny sy'n dechrau addysg uwch israddedig amser llawn a rhan-amser yng Nghymru. Gweler yr wybodaeth a'r data yn nhabl 5 yn y dadansoddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

7.2. Bu cynnydd yn nifer a chyfran y dechreuwyr o bob cefndir ethnig lleiafrifol ar draws y cyfnod, gyda'r cynnydd mwyaf yn y ddau ffigwr hyn ar gyfer dechreuwyr o gefndir ethnig Asiaidd, ac yna'r rhai o gefndir Cymysg. Rhwng 2016/17 a 2021/22 cododd nifer y dechreuwyr o gefndir ethnig Asiaidd o 1,665 i 2,455, tra bo'r gyfran o'r holl ddechreuwyr a oedd o gefndir ethnig Asiaidd wedi codi o 4.4 y cant i 6.1 y cant. Bu cynnydd arbennig o fawr yn nifer y dechreuwyr o gefndir ethnig Asiaidd yn 2017/18 (o 1,665 i 2,375), oherwydd ehangu lleoliadau campysau. Rhwng 2016/17 a 2021/22 cynyddodd nifer yr ymgeiswyr o gefndir ethnig Cymysg o 915 i 1,335, tra bo'r gyfran o'r holl ymgeiswyr a oedd o gefndir ethnig Cymysg wedi codi o 2.4 y cant i 3.3 y cant.

## 8. Cadw myfyrwyr gradd gyntaf israddedig amser llawn a rhan-amser sy’n hanu o’r DU mewn addysg uwch yng Nghymru

8.1. Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am fyfyrwyr israddedig sy'n hanu o'r DU a gedwir mewn addysg uwch. Gweler y data a'r wybodaeth a ddarperir yn nhabl 6 yn y dadansoddiad sy’n cyd-fynd â’r adroddiad hwn.

8.2. Yn gyffredinol, roedd cyfran y dechreuwyr **israddedig amser llawn** o'r DU sy'n hanu o’r DU a oedd yn dal i fod mewn addysg uwch flwyddyn yn dilyn y flwyddyn y dechreuon nhw’n is ar gyfer dechreuwyr o bob cefndir ethnig lleiafrifol nag ydoedd ar gyfer pob dechreuwr, ac fe gynyddodd y bwlch rhwng y ffigyrau hyn ar draws y cyfnod, gyda’r bylchau ar gyfer dechreuwyr o gefndir ethnig DU yn arbennig o fawr. Gostyngodd cyfran y dechreuwyr israddedig amser llawn sy’n hanu o'r DU sydd o gefndir ethnig Du a oedd yn dal i fod mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl y flwyddyn y dechreuon nhw o 89.3 y cant i 77.4 y cant rhwng 2016/17 a 2020/21, tra bo cyfran y dechreuwyr ar y cyfan wedi gostwng o 91.9 y cant i 89.4 y cant ar draws yr un cyfnod; mae hyn yn cynrychioli bwlch o 2.6 pwynt canran yn 2016/17 gan gynyddu i fwlch o 11.9 pwynt canran yn 2020/21. Gostyngodd cyfran y dechreuwyr israddedig amser llawn sy’n hanu o'r DU sydd o gefndir ethnig Asiaidd a oedd yn dal i fod mewn addysg uwch flwyddyn yn dilyn y flwyddyn y dechreuon nhw o 93.9 y cant i 85.1 y cant rhwng 2016/17 a 2020/21, sy'n cynrychioli bwlch o 2 bwynt canran uwchlaw cyfran y dechreuwyr ar y cyfan yn 2016/17, gan gynyddu i fwlch o 4.3 pwynt canran islaw cyfran y dechreuwyr ar y cyfan yn 2020/21.

8.3. Mae'n anos dehongli data ar gyfer dechreuwyr **gradd gyntaf rhan-amser** sy’n hanu o’r DU oherwydd y nifer fach o'r dechreuwyr hyn sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

## 9. Gwahaniaethau Gradd: y dosbarthiadau gradd a ddyfernir i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser sy'n a hanu o’r DU mewn addysg uwch yng Nghymru

9.1. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y gwahanol ddosbarthiadau gradd a ddyfernir i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser sy'n hanu o’r DU mewn addysg uwch yng Nghymru. Gweler y data a'r wybodaeth yn nhabl 7 yn y dadansoddiad sy’n cyd-fynd â’r adroddiad hwn.

9.2. Roedd graddedigion gradd gyntaf o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn llawer llai tebygol yn gymesur o ennill gradd dosbarth **cyntaf** na graddedigion o gefndir ethnig Gwyn, a'r rhai o gefndir ethnig Du oedd leiaf tebygol o’r holl grwpiau ethnig lleiafrifol, ac yna’r rhai o gefndir ethnig Asiaidd. Mae'r siart a ddarperir yn y dadansoddiad sy’n cyd-fynd â’r adroddiad hwn yn dangos hyn yn glir iawn. Er enghraifft, yn 2021/22, roedd cyfran y rhai o gefndir ethnig Du a enillodd radd dosbarth cyntaf yn 15.9 y cant, bwlch o 14.6 pwynt canran yn is na'r ffigwr o 30.5 y cant ar gyfer graddedigion gradd dosbarth cyntaf ar y cyfan, tra bo’r gyfran a enillodd radd dosbarth cyntaf ar gyfer graddedigion o gefndir ethnig Asiaidd yn 21.2 y cant,  bwlch o 9.3 pwynt canran yn is na'r ffigwr ar y cyfan, a bod y gyfran ar gyfer graddedigion o gefndir ethnig gwyn yn 32.1 y cant, 1.6 pwynt canran yn uwch na'r ffigwr ar y cyfan.

9.3. Roedd graddedigion gradd gyntaf o gefndir ethnig lleiafrifol Asiaidd, Du ac Arall yn llawer mwy tebygol yn gymesur o ennill dosbarthiad gradd **2:2** na'r rhai o gefndir ethnig Gwyn neu Gymysg, a'r rhai o gefndir ethnig Du oedd y rhai mwyaf tebygol o bob grŵp ethnig. Mae'r siart a ddarperir yn y dadansoddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn yn dangos hyn yn glir iawn. Er enghraifft yn 2021/22, roedd cyfran y rhai o gefndir ethnig Du a enillodd ddosbarthiad gradd 2:2 yn 30.8 y cant, bwlch o 12.4 pwynt canran yn fwy na chyfran yr holl raddedigion gradd gyntaf a enillodd ddosbarthiad gradd 2:2, sef 18.4 y cant, tra bo cyfran y rhai o gefndir ethnig Asiaidd a enillodd ddosbarthiad gradd 2:2 yn 24.1 y cant, bwlch o 5.7 pwynt canran yn fwy na'r gyfran ar y cyfan.

9.4. O ran cyfran y graddedigion gradd gyntaf sy'n ennill dosbarthiad gradd **2:1** neu **drydydd** dosbarth, bu cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf o ran cyflawni mwy o gydraddoldeb rhwng pob cefndir ethnig. Dangosir hyn yn y siartiau yn y dadansoddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn yn y ffaith bod y bariau wedi dod yn agosach at 0 yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, yn 2021/22, roedd y bwlch rhwng cyfran yr holl raddedigion gradd gyntaf a chyfran y graddedigion gradd gyntaf o bob cefndir ethnig lleiafrifol a enillodd ddosbarthiad gradd 2:1 yn 4 pwynt canran neu lai, ac ar gyfer dosbarthiadau gradd trydydd dosbarth roedd y bwlch yn 2.6 pwynt canran neu lai.

9.5. Yn ystod y cyfnod rhwng 2016/17 a 2021/22 roedd yn ymddangos nad oedd rhyw lawer o newid yn y gyfran o bob cefndir ethnig a gafodd radd **ddi-ddosbarth**, gyda chyfrannau'n amrywio o 4.1 pwynt canran neu lai uwchlaw'r gyfran ar y cyfan mewn unrhyw flwyddyn unigol ar gyfer pob grŵp ethnig lleiafrifol. Mae'r categori di-ddosbarth yn cynnwys graddau aegrotat[2] a Meddygaeth.

## 10. Staff mewn addysg uwch yng Nghymru

10.1. Mae tablau 8 i 11 yn y dadansoddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn yn ymwneud â staff mewn addysg uwch yng Nghymru. Mae'r data am staff yn cynnwys staff sy'n wladolion y DU a staff sy'n wladolion o'r tu allan i'r DU. Mae staff anacademaidd yn llawer llai tebygol o gynnwys gwladolion o'r tu allan i'r DU na staff academaidd. Er enghraifft, yn 2021/22 roedd 94 y cant o staff anacademaidd yng Nghymru'n wladolion y DU, tra bo 78 y cant o staff academaidd yng Nghymru'n wladolion y DU. Mae'r eirfa'n diffinio'r termau staff dan gontract 'academaidd' ac 'anacademaidd' ac 'annodweddiadol'. Nid yw data am staff academaidd yn cynnwys staff ar gontractau annodweddiadol yn unig.

10.2. Rhwng 2016/17 a 2021/22, cynyddodd nifer a chyfran y staff **academaidd** o bob un o'r cefndiroedd ethnig lleiafrifol Asiaidd, Du a Chymysg yn flynyddol. Roedd y cynnydd mwyaf yn y ddau ffigwr hyn ar gyfer staff academaidd o gefndir ethnig Asiaidd, gan godi o 560 i 770 (cynnydd o 210), neu 5.8 i 8.3 y cant o'r holl staff academaidd ar draws y cyfnod o 2016/17 i 2021/22. Cododd staff o gefndir ethnig Du o 90 i 165 (cynnydd o 75), neu 0.9 i 1.8 y cant o'r holl staff academaidd ar draws y cyfnod o 2016/17 i 2021/22.

[2] Diffinnir y term 'aegrotat' yn yr eirfa.

10.3. Er bod niferoedd y staff **anacademaidd** yn debyg i niferoedd y staff academaidd, roedd niferoedd a chyfrannau'r staff anacademaidd o gefndiroedd lethnig lleiafrifol yn llai, ac roedd y newid a welwyd dros y cyfnod o 2016/17 i 2021/22 yn llai.

10.4. Cynyddodd nifer a chyfran y staff **anacademaidd** o bob un o'r cefndiroedd ethnig Asiaidd, Du a Chymysg ar draws y cyfnod, gyda'r cynnydd mwyaf ar draws y cyfnod ar gyfer y ddau ffigwr hyn ar lefel debyg ar gyfer y rhai o gefndir ethnig Asiaidd ac o gefndir ethnig Cymysg. Cynyddodd y niferoedd o gefndir ethnig Cymysg 35 i 125, ac o gefndir ethnig Asiaidd 30 i 250, tra bo'r ddwy gyfran wedi codi 0.4 pwynt canran yr un, gan gyrraedd 2.5 y cant ar gyfer y rhai o gefndir ethnig Asiaidd a 1.3 y cant ar gyfer y rhai o gefndir ethnig Cymysg.

10.5. **Nid yw staff academaidd sydd â chontractau annodweddiadol yn unig** yn grŵp homogenaidd o staff. Mae staff o'r fath yn cael eu cyflogi ar gyfer tasgau hyblyg, byrdymor neu untro a gall niferoedd y staff hyn amrywio'n sylweddol rhwng blynyddoedd. Hefyd, mae cyfrannau uchel o ethnigrwydd anhysbys ymhlith y grŵp hwn o staff, yn nodweddiadol mae cyfran y rhai na ddarparwyd gwybodaeth am eu hethnigrwydd mor uchel â hanner yr holl staff mewn unrhyw flwyddyn. Oherwydd y niferoedd uchel nad oedd eu hethnigrwydd yn hysbys, nid yw dadansoddiad o'r data ar gyfer y grŵp hwn o staff wedi cael ei gyhoeddi. Byddwn yn parhau i fonitro'r grŵp hwn o staff a lefel yr ethnigrwydd anhysbys a gofnodir.

## 11. Telerau cyflogaeth staff

11.1. Ar gyfer staff academaidd ac anacademaidd, roedd bylchau sylweddol rhwng cyfran y staff o bob cefndir ethnig lleiafrifol ar delerau cyflogaeth parhaol a chyfran y staff ar y cyfan ar delerau cyflogaeth parhaol, gyda rhai bylchau mwy yn gyffredinol i'w gweld ar gyfer staff academaidd na staff anacademaidd.

11.2. Mae'r bwlch rhwng cyfran y staff **academaidd** o gefndir ethnig Du ar delerau cyflogaeth parhaol a chyfran yr holl staff academaidd ar delerau cyflogaeth parhaol wedi cynyddu'n sylweddol ar draws y cyfnod, gyda chyfran y staff academaidd Du ar delerau cyflogaeth parhaol 8.5 pwynt canran islaw cyfran yr holl staff academaidd ar delerau cyflogaeth parhaol yn 2016/17, a'r bwlch hwnnw'n cynyddu i 24.7 pwynt canran yn 2021/22. Cynyddodd yr un bwlch i staff academaidd o gefndir ethnig Cymysg, ond nid i'r un graddau. Roedd cyfran y staff academaidd Cymysg ar delerau cyflogaeth parhaol 9.9 pwynt canran islaw'r ffigwr ar y cyfan yn 2016/17, a'r bwlch hwnnw'n cynyddu i 17.5 pwynt canran yn 2021/22.

11.3. Cynyddodd y bwlch rhwng cyfran y staff **anacademaidd** o gefndir ethnig Cymysg ar delerau cyflogaeth parhaol a chyfran yr holl staff anacademaidd ar delerau cyflogaeth parhaol yn sylweddol ar draws y cyfnod, gyda chyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Cymysg ar delerau cyflogaeth parhaol 7.9 pwynt canran islaw cyfran yr holl staff anacademaidd ar delerau cyflogaeth parhaol yn 2016/17, a'r bwlch hwnnw'n cynyddu i 15.5 pwynt canran yn 2021/22. Fodd

bynnag, lleihaodd y bwlch rhwng cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Du ar delerau cyflogaeth parhaol a'r holl staff anacademaidd ar delerau cyflogaeth parhaol yn sylweddol, gan ddechrau'r cyfnod ar 16.2 pwynt canran islaw cyfran y staff anacademaidd ar y cyfan ar delerau cyflogaeth parhaol, ond gan ddiweddu'r cyfnod ar 2.7 pwynt canran islaw'r gyfran hon ar gyfer staff anacademaidd ar y cyfan.

## 12. Gradd staff

### Grwpiau gradd

12.1. Yn y dadansoddiad hwn, cafodd graddau staff eu grwpio[3] i ddechrau fel a ganlyn i'w gwneud yn bosibl cwblhau dadansoddiadau penodol:

| | |
|---|---|
| Grŵp 1: | Uwch Reolwyr |
| Grŵp 2: | Athrawon |
| Grŵp 3: | Cyfrifoldeb am reoli / cyllideb, arbenigwyr |
| Grŵp 4: | Cyfrifoldeb am staff, cyfrifoldeb cyfyngedig/dim cyfrifoldeb am reoli, cyfrifoldeb am gyllideb tîm/dim cyfrifoldeb am gyllideb |
| Grŵp 5: | Dim cyfrifoldeb am staff na chyllideb, ychydig o brofiad neu ddim profiad |

12.2. Cydgrynhowyd y grwpiau hyn ymhellach oherwydd, gan ddibynnu ar y math o staff, nad oedd rhai grwpiau'n berthnasol e.e. Mae Athrawon yn academaidd yn unig, tra bo eraill yn cynnwys niferoedd bychain iawn. Mae cadw defnyddioldeb y data, heb ddatgelu gwybodaeth am unigolion, yn arwain at y grwpiau canlynol a ddefnyddir yn y testun sy'n dilyn:

| Math o staff | Grwp eilaidd y cyfeirir ato yn y testun | | |
|---|---|---|---|
| | Graddau uwch | Graddau canol | Graddau is |
| Academaidd | Grwpiau 1 a 2 | Grŵp 3 | Grwpiau 4 a 5 |
| Anacademaidd* | Grwpiau 1 a 3 a 4 | | Grŵp 5 |

* Mae Grŵp 2 (Athrawon) yn radd academaidd yn unig

### Staff ar gontract academaidd

12.3. Roedd cyfran y staff academaidd o bob un o'r cefndiroedd ethnig Asiaidd, Du a Chymysg a gyflogir yn y grŵp gradd **uwch** (1 a 2) yn llai na chyfran yr holl staff academaidd a gyflogir yn y grŵp graddau hwn, ym mhob blwyddyn yn ystod y cyfnod. Er enghraifft, yn 2021/22, roedd cyfran y staff academaidd o bob un o'r cefndiroedd ethnig Asiaidd, Du a Chymysg a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau uwch yn 8.6, 4.8 a 6.6 y cant yn y drefn honno, tra bo cyfran yr holl staff

[3] Darperir rhagor o wybodaeth am y grwpiau cychwynnol hwn yn y ddalen Nodiadau yn y [dadansoddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn](#).

academaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau uwch yn 12.5 y cant yn yr un flwyddyn.

12.4. Yn 2016/17 roedd cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig Cymysg a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau **uwch** yn 13.1 y cant, 1.5 pwynt canran islaw cyfran yr holl staff academaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau hwn (14.6 y cant). Yn 2021/22 roedd cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig Cymysg a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau uwch yn 6.6 y cant, 5.9 pwynt canran islaw cyfran yr holl staff academaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp hwn (12.5 y cant). Felly fe gynyddodd y bwlch rhwng cyfran y staff o gefndir ethnig Cymysg a'r holl staff yn y grŵp graddau uwch a hynny 4.4 pwynt canran ar draws y cyfnod.

12.5. Roedd cyfrannau'r staff academaidd o gefndir ethnig Du a Chymysg a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau **canol** (3) yn llai na chyfran yr holl staff academaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau hwn, ym mhob blwyddyn yn ystod y cyfnod. Er enghraifft, yn 2021/22, roedd cyfran y staff academaidd o'r cefndiroedd ethnig Du a Chymysg yn y grŵp graddau canol yn 4.9 ac 11.4 y cant yn y drefn honno, tra bo cyfran yr holl staff academaidd yn y grŵp graddau canol yn 14.4 y cant.

12.6. Yn 2016/17, roedd cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig Du a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau **canol** yn 8.1 y cant, 4.8 pwynt canran islaw cyfran yr holl staff academaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau hwn (12.9 y cant). Yn 2021/22 roedd cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig Du a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau canol yn 4.9 y cant a 9.5 pwynt canran islaw cyfran yr holl staff academaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp hwn (14.4 y cant). Felly fe gynyddodd y bwlch rhwng cyfran y staff o gefndir ethnig Du a'r holl staff yn y grŵp graddau canol a hynny 4.7 pwynt canran ar draws y cyfnod. Yn ystod yr un cyfnod, lleihaodd y bwlch rhwng cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig Cymysg a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau canol a chyfran yr holl staff academaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau hwn a hynny 4.9 pwynt canran.

12.7. Roedd cyfran y staff academaidd o bob un o'r cefndiroedd ethnig Asiaidd, Du a Chymysg a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau **is** (4 a 5) yn fwy na chyfran yr holl staff academaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau hwnnw ym mhob blwyddyn yn ystod y cyfnod. Er enghraifft, yn 2021/22 roedd cyfran y staff academaidd o bob un o'r cefndiroedd ethnig Asiaidd, Du a Chymysg a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau is yn 75.3, 90.3 ac 82.0 y cant yn y drefn honno, tra bo'r gyfran ar gyfer yr holl staff academaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau hwn yn 73.1 y cant yn yr un flwyddyn.

12.8. Roedd y bwlch rhwng cyfran y staff academaidd o bob cefndir ethnig a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau **is** a chyfran yr holl staff academaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau hwn yn ehangach yn gyffredinol nag ar gyfer y grwpiau graddau eraill. Er enghraifft, yn 2021/22 roedd cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig Du yn y grŵp graddau uwch yn 4.8 y cant, bwlch o 7.7 pwynt canran islaw'r gyfran ar y cyfan (12.5 y cant), tra bo cyfran y staff academaidd o

gefndir ethnig Du yn y grŵp graddau is yn 90.3 y cant, bwlch o 17.2 pwynt canran uwchlaw'r gyfran ar y cyfan (73.1 y cant).

### Staff ar gontract anacademaidd

12.9. Gan mai dim ond dau grŵp graddau sydd i'w dadansoddi ar gyfer staff anacademaidd, mae'r ffigyrau a'r canfyddiadau ar gyfer y ddau grŵp yn gyferbyniol.

12.10. Roedd cyfran y staff anacademaidd o'r cefndiroedd ethnig Du a Chymysg a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau **uwch** (1, 3 a 4) yn llai na chyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn yr un grŵp graddau, ym mhob blwyddyn yn ystod y cyfnod. Er enghraifft, yn 2021/22 roedd cyfran y staff anacademaidd o'r cefndiroedd ethnig Du a Chymysg a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau uwch yn 41.7 a 54.2 y cant yn y drefn honno, tra bo cyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn yr un grŵp graddau yn yr un flwyddyn yn 56.5 y cant.

12.11. Roedd y bwlch rhwng cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Du a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau **uwch** a chyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau uwch yn amrywio ar draws y cyfnod, ond diweddodd y cyfnod gyda bwlch tebyg i ddechrau'r cyfnod ar 15 pwynt canran islaw cyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp hwn. Roedd y bwlch rhwng cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Cymysg a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau uwch a chyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau uwch hefyd yn amrywio ar draws y cyfnod, ond diweddodd y cyfnod gyda lleihad yn y bwlch, hynny yw, gan leihau i 2.3 pwynt canran islaw cyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp hwn.

12.12. Yn ystod tair blynedd gyntaf y cyfnod (2016/17 i 2018/19), roedd cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Asiaidd yn y grŵp graddau **uwch** (1, 3 a 4) yn fwy na chyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp hwn ac, yn ystod ail dair blynedd y cyfnod (2019/20 i 2021/22), roedd yn llai na chyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp hwn. Lleihaodd y bwlch rhwng cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Asiaidd yn y grŵp graddau uwch a chyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp hwn dros y cyfnod o 8.2 pwynt canran yn fwy na chyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp hwn ar y dechrau i 1.6 pwynt canran islaw cyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp hwn erbyn diwedd y cyfnod.

12.13. Tyfodd y bwlch rhwng cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Arall yn y grŵp graddau **uwch** (1, 3 a 4) a chyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp hwn bob blwyddyn a hynny 1 neu 2 bwynt canran, tan ddiwedd y cyfnod pan gynyddodd y bwlch 6.6 pwynt canran rhwng 2020/21 a 2021/22. Erbyn diwedd y cyfnod roedd cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Arall yn y grŵp graddau **uwch** (1, 3 a 4) yn 67.4 y cant a 10.8 pwynt canran yn fwy na chyfran yr holl staff anacademaidd a oedd yn cael eu cyflogi yn

y grŵp hwn (56.5 y cant). Gellir gweld hyn yn eithaf clir yn y siart yn y dadansoddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

**Staff â chontractau annodweddiadol academaidd yn unig**

12.14. Fel a nodwyd ym mharagraff 10.5, mae niferoedd y staff annodweddiadol academaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn fach iawn, ac nid yw staff annodweddiadol academaidd yn grŵp homogenaidd o staff, a hwythau'n cael eu cyflogi ar gyfer tasgau hyblyg, byrdymor neu untro a gall niferoedd y staff hyn amrywio'n sylweddol rhwng blynyddoedd. Hefyd, mae cyfrannau uchel o ethnigrwydd anhysbys ymhlith y grŵp hwn o staff, yn nodweddiadol mae cyfran y rhai na ddarparwyd gwybodaeth ar eu cyfer mor uchel â hanner yr holl staff mewn unrhyw flwyddyn unigol. Oherwydd y nifer uchel hwn o ethnigrwydd anhysbys, ni fu'n bosibl cynnal dadansoddiad o'r bylchau ar gyfer staff â chontractau annodweddiadol academaidd yn unig yn ôl grwpiau graddau.

## 13. Byrddau Llywodraethwyr

13.1. Roedd nifer y llywodraethwyr yn y sector addysg uwch yng Nghymru o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn fach iawn; fodd bynnag, ar draws y cyfnod cynyddodd cyfran y llywodraethwyr o gefndir Asiaidd, Du neu Gymysg, gyda'r gyfran fwyaf o lywodraethwyr o gefndir ethnig lleiafrifol yn 2021/22 yn 4.4 y cant o gefndir ethnig Asiaidd.

## 14. Y camau nesaf

14.1. Dyma'r adroddiad cyntaf ar fonitro data cydraddoldeb hil mewn addysg uwch ar y ffurf hon ac, yn amlwg, mae mwy o waith i'w wneud wrth ddadansoddi'r data. Lle mae canfyddiadau'r dadansoddiad hwn yn dangos bylchau diesboniad, byddwn yn gwneud mwy o waith manwl ar y data i benderfynu a all y data ddarparu mewnwelediadau pellach ynteu a oes angen camau gweithredu eraill. Lle mae bylchau yn ein dealltwriaeth oherwydd cyfyngiadau'r data, byddwn yn gwneud gwaith ansoddol arall.

14.2. Rydym yn cydnabod nad yw'r adroddiad hwn yn cynnwys data croestoriadol[4]. Mae paragraff 2.5 o'r adroddiad hwn ac adran 5 yn Atodiad B yn amlinellu'n glir bod cyfyngiadau o ran yr hyn y gellir ei ddadansoddi oherwydd y niferoedd bychain a geir, hyd yn oed pan gaiff data am ethnigrwydd ei gydgrynhoi ar gyfer sector AU Cymru. Mae'r cyfyngiadau hyn hyd yn oed yn fwy tebygol wrth ddadansoddi data croestoriadol. Rydym yn bwriadu cynnwys dadansoddiad ar lefel groestoriadol yn ein gweithgarwch monitro mewnol a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol os yn bosibl.

14.3. Byddwn yn comisiynu arolwg ar brofiadau personol staff a myfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol mewn addysg uwch yng Nghymru.

[4] Disgrifir "data croestoriadol" yng nghyd-destun yr adroddiad hwn yn yr eirfa.

Bydd yr arolwg ansoddol hwn yn cyfrannu at ein sylfaen dystiolaeth sy’n tanategu datblygiadau polisi.

## Grwpiau ethnig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

### 1. Grwpio categorïau ethnigrwydd

1.1. Mae categorïau ethnigrwydd yn nata myfyrwyr a staff HESA yn cyd-fynd â chategorïau'r Cyfrifiad[5]. Mae'r categorïau hyn wedi cael eu grwpio'n bum grŵp ethnig ehangach at ddibenion y dadansoddiad hwn fel a ddangosir isod. Mae'r dulliau enwi a chydgrynhoi a ddefnyddiwyd i greu'r grwpiau ehangach hyn yn gyson â grwpiau ehangach a ddefnyddir mewn mannau eraill i gyhoeddi data am ethnigrwydd e.e. UCAS, HESA, y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

| Grwpiau ethnig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn | Mae pob grŵp yn cynnwys yr ethnigrwydd canlynol a gofnodir ar ddata staff neu fyfyrwyr HESA. |
|---|---|
| Gwyn | Gwyn<br>Sipsiwn neu Deithwyr[6] |
| Du | Du neu Ddu Brydeinig - Caribïaidd<br>Du neu Ddu Brydeinig - Affricanaidd<br>Cefndir Du Arall |
| Asiaidd | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd<br>Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd<br>Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd<br>Tsieineaidd<br>Cefndir Asiaidd arall |
| Cymysg | Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd<br>Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd<br>Cymysg - Gwyn ac Asiaidd<br>Cefndir cymysg arall |
| Arall | Arabaidd<br>Cefndir ethnig arall |

### 2. Rhesymau dros grwpio categorïau ethnigrwydd

2.1. Rydym yn parchu natur unigryw gwahanol gefndiroedd o ran hil. Pan fyddwn yn cydgrynhoi data, ein bwriad yw osgoi cyhoeddi data sy'n rhy fach ac, felly, sydd â'r potensial i ddatgelu pwy yw unigolion[7]. Nid yw cydgrynhoi o'r fath wedi'i fwriadu i fod yn amharchus ond yn hytrach i'n galluogi ni i amlygu materion a ddatgelir yn y data y dylid mynd i'r afael â hwy trwy bolisi ac ymarfer.

[5] Ceir gwybodaeth dechnegol am ddata HESA, gan gynnwys categorïau ethnigrwydd, yn Atodiad B.
[6] Mae Sipsiwn neu Deithwyr yn un categori ethnigrwydd yng Nghyfrifiad 2011, sy'n gywir ar gyfer y blynyddoedd o ddata HESA a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn. Gweler Atodiad B am ragor o wybodaeth.
[7] Ceir rhagor o wybodaeth am gyfyngiadau'r data, a rheolaeth ar ddatgelu data, yn Atodiad B.

## Gwybodaeth dechnegol

### 1. Ffynonellau data

1.1. Cymerir data am ymgeiswyr a cheisiadau i gyrsiau israddedig amser llawn yn narparwyr addysg uwch Cymru o wybodaeth a gyhoeddwyd gan UCAS yn eu hadroddiadau rhyw, cefndir ardal a grwpiau ethnig, ar gyfer cylchoedd mynediad 2016 i 2022. Cymerir data am staff a myfyrwyr yn narparwyr addysg uwch Cymru o gofnodion staff a myfyrwyr HESA, 2016/17 i 2021/22. Mae UCAS yn adrodd ar ethnigrwydd ar gyfer ymgeiswyr sy'n hanu o'r DU. Cesglir data am ethnigrwydd gan HESA ar gyfer yr holl staff ond dim ond ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o'r DU y mae'n orfodol casglu data am ethnigrwydd.

1.2. Fel a nodwyd yn Atodiad A uchod, mae categorïau ethnigrwydd yn nata myfyrwyr a staff HESA yn cyd-fynd â chategorïau'r Cyfrifiad. Ar gyfer y data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn sy'n ymwneud â blynyddoedd academaidd 2016/17 i 2021/22 categorïau Cyfrifiad 2011 yw hyn. Ar gyfer data HESA 2022/23 bydd hyn yn newid i gategorïau Cyfrifiad 2021. Oherwydd yr angen i gydgrynhoi data'n grwpiau ethnig ehangach, fel a eglurir yn Atodiad A, nid yw hyn yn debygol o effeithio ar y mesurau monitro cydraddoldeb hil.

1.3. Ceir rhagor o wybodaeth am y data a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn yn y dudalen Nodiadau o'r dadansoddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

1.4. Darperir manylion am sut y mae pob mesur yn cael ei gyfrifo ar ein gwefan, a byddant yn cael eu diweddaru'n flynyddol yn ein cylchlythyr Gofynion Data diweddaraf[8].

### 2. Diffiniad o gontractau staff annodweddiadol

2.1. Nodwyd y diffiniad o gontractau staff 'annodweddiadol' gan yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI):

> 'Defnyddir y term 'annodweddiadol' i ddisgrifio trefniadau gweithio nad ydynt yn barhaol, sy'n cynnwys perthnasoedd cyflogaeth cymhleth a/neu'n golygu gwaith i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol. Gall y rhain gael eu nodweddu gan lefel uchel o hyblygrwydd i'r darparwr gwaith a'r person sy'n gweithio, a gallant olygu perthynas drionglog sy'n cynnwys asiant.'
>
> *Ffynhonnell: Dogfen Drafod yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI) ar Statws Cyflogaeth, Gorffennaf 2003, paragraff 23.*

2.2. Yn ogystal â'r diffiniad hwn gan yr Adran Masnach a Diwydiant, mae rhai canllawiau sy'n benodol ar gyfer addysg uwch wedi cael eu llunio gan HESA. Mae contractau annodweddiadol yn bodloni un neu fwy o'r amodau canlynol:

- Maent am lai na phedair wythnos yn olynol - sy'n golygu nad oes angen cyhoeddi datganiad o delerau ac amodau.
- Maent ar gyfer tasgau untro/byrdymor - er enghraifft ateb ffonau yn ystod y broses glirio, llwyfannu arddangosfa, trefnu cynhadledd. Nid oes unrhyw

---

[8] Cylchlythyr gofynion data diweddaraf W23/27HE: Gofynion Data Addysg Uwch 2023/24 Dyfodol Data HESA – Diweddariad Terfynol.

rwymedigaeth ar y cyd rhwng y darparwr gwaith a'r person sy'n gweithio y tu hwnt i'r cyfnod gwaith neu'r prosiect penodol. Mewn rhai achosion, telir ffi sefydlog i unigolion am y darn o waith nad yw'n gysylltiedig ag oriau/amser a dreulir.

- Maent yn golygu gwaith i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol - ond nid fel rhan o gynlluniau cwmni dysgu nac ar gyfer goruchwylio addysgu ac ymchwil sy'n gysylltiedig â darparu addysg sy'n seiliedig ar ddysgu o bell.
- Maent yn cynnwys lefel uchel o hyblygrwydd yn aml mewn contract i weithio 'yn ôl y galw' - er enghraifft arlwyo mewn cynadleddau, llysgenhadon myfyrwyr, arddangoswyr o blith myfyrwyr.

## 3. Mathau o fesurau perfformiad a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn

3.1. Caiff y mesurau perfformiad a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn eu rhestru yn Atodiad C o W23/06HE. Mae dau fath o fesur:

- mae'r math cyntaf yn monitro'r nifer, y gyfran, y newid canrannol blynyddol yn y nifer a'r newid blynyddol o ran pwynt canrannol yn y gyfran yn ôl cefndir ethnig ar gyfer grŵp penodol o unigolion, ac
- mae'r ail fath yn monitro'r bwlch "diesboniad" rhwng cyfran yr holl unigolion o grŵp penodol sy'n cyflawni rhywbeth, a chyfran yr unigolion o gefndir ethnig penodol yn y grŵp hwnnw sy'n cyflawni'r un peth.

3.2. Er enghraifft, gall y grŵp o unigolion fod yn ymgeiswyr, yn raddedigion neu'n staff a gall y "rhywbeth" a gyflawnir fod yn gynnig i ymgeisydd, ennill dosbarthiad gradd penodol neu fod ar gontract gyda thelerau cyflogaeth parhaol.

3.3. Pan fo bwlch yn cael ei fesur, mae'r gyfran ar gyfer yr holl unigolion yn cael ei thynnu i ffwrdd o'r gyfran o unigolion o gefndir ethnig penodol. Os yw'r bwlch yn negatif mae hyn yn golygu bod cyfran yr unigolion o gefndir ethnig penodol yn llai na chyfran yr holl unigolion.

## 4. Nodiadau eraill ar y data

4.1. Mae'n bosibl adnabod ar wahân o fewn y data y staff a'r myfyrwyr hynny sy'n eu hystyried eu hunain yn "Sipsiwn neu Deithwyr"; fodd bynnag, nid yw'r grŵp ethnig lleiafrifol Gwyn hwn wedi cael ei nodi ar wahân i gyfanswm y grŵp Gwyn drwy'r dadansoddiad hwn oherwydd niferoedd bychain, fel a drafodir isod. Yn narparwyr addysg uwch Cymru ar y cyfan, rhwng 2016/17 a 2021/22, o ran y rhai o blith Sipsiwn neu Deithwyr:

- roedd nifer y dechreuwyr yn amrywio o 5 i 30;
- roedd nifer y graddedigion â graddau cyntaf yn amrywio o 5 i 10;
- roedd nifer y staff â chontractau academaidd yn amrywio rhwng 0 a 5;
- roedd nifer y staff academaidd ar gontractau annodweddiadol yn unig yn 0 trwy gydol y cyfnod, ac
- roedd nifer y staff â chontractau anacademaidd yn amrywio rhwng 0 a 5.

4.2. Mae'n werth cadw mewn cof wrth ystyried y ffigyrau hyn bod y fethodoleg dalgrynnu wedi cael ei chymhwyso, sy'n golygu y gallai 0 fod yn 0, neu'n 1 neu'n 2 wedi'i dalgrynnu i 0.

## 5. Cyfyngiadau'r data

5.1. Mae cyfyngiadau ar ddadansoddi staff a myfyrwyr yn narparwyr addysg uwch Cymru yn ôl ethnigrwydd, oherwydd niferoedd bychain y myfyrwyr a staff ym mhob grŵp ethnig lleiafrifol ym mhob darparwr addysg uwch yng Nghymru ac weithiau hyd yn oed yng Nghymru ar y cyfan.

5.2. Gall niferoedd bychain arwain at amrywiadau mawr mewn canrannau o un flwyddyn i'r llall, ac nid yw'n bosibl canfod unrhyw batrymau penodol yn y data, i gynnal unrhyw ddadansoddiad ystyrlon neu ddod i unrhyw gasgliadau ystyrlon. Hefyd, mae materion datgelu data'n codi, lle gall y potensial i ddatgelu pwy yw unigolyn ddigwydd, sy'n creu'r gofyniad am weithdrefn rheolaeth ar ddatgelu data fel a amlinellir isod.

5.3. Wrth i'r data gael eu dadgyfuno'n fwy, mae nifer y celloedd sydd â gwerthoedd bychain yn cynyddu. Mae hyn yn golygu ei bod yn dod yn anos cyflawni dadansoddiad ystyrlon a bod angen mwy o gelu data, gan wneud y data'n llai defnyddiol a chan olygu nad yw'n fuddiol ei gyhoeddi. Y mater o ran niferoedd bychain yw'r rheswm pam y gwnaethom gyhoeddi yng nghylchlythyr W22/28HE, er y byddem yn monitro data ar lefel sefydliadau unigol, y byddem yn cyhoeddi ein gwybodaeth fonitro ar lefel genedlaethol yn unig.

5.4. Er y gallai fod cyfyngiadau o ran pa mor ddefnyddiol y gall y data fod, mae camau eraill y gallwn eu cymryd i ategu'r data. Fe wnaethom gydnabod hyn yn W22/28HE:

- "Mae'r data a gynigir yn rhoi ffordd i ddeall mwy am gydraddoldeb hiliol ar adegau allweddol i staff a myfyrwyr. Rydym yn cydnabod mai mesuriadau procsi yw'r pwyntiau allweddol hyn, felly fe'u hystyrir ochr yn ochr â thystiolaeth ansoddol."
- "Os byddwn yn canfod agweddau sy'n destun pryder ym maes cydraddoldeb hiliol byddwn yn turio'n fanylach drwy'r data i ganfod a oes unrhyw ffactorau wrth wraidd hynny y dylem fynd i'r afael â nhw. Byddwn yn defnyddio gwaith monitro ychwanegol, atodol, adroddiadau ar ein cynllun cydraddoldeb blynyddol neu ymchwil a gomisiynir, i fynd i'r afael â phryderon newydd, neu bryderon sy'n dod i'r amlwg."

## 6. Methodoleg rheolaeth ar ddatgelu data

6.1. Mae'r fethodoleg rheolaeth ar ddatgelu data wedi cael ei chymhwyso i'r holl ddata yn y dadansoddiad hwn. Mae hyn yn golygu bod y canlynol yn wir:

- Mae'r holl rifau wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr i'r lluosrif agosaf o 5. Mae unrhyw rif sy'n is na 2.5 wedi'i dalgrynnu i 0. Mae haneri wedi'u talgrynnu i fyny (e.e. mae 2.5 wedi'i dalgrynnu i 5).

- Mae canrannau wedi'u cyfrifo ar sail data heb ei dalgrynnu. Mae canrannau a gyfrifwyd ar sail poblogaethau sy'n cynnwys llai na 22.5 o unigolion wedi'u celu a'u cynrychioli fel ".".
- Hefyd, mae canrannau lle mae'r rhifiadur yn llai na 10 hefyd wedi cael eu celu a'u cynrychioli fel "."

| | |
|---|---|
| Staff ar gontract academaidd | Diffinnir staff ar gontract academaidd fel gweithwyr proffesiynol sy'n meddu ar gontract ar gyfer cynllunio, cyfarwyddo a chyflawni gwaith addysgu ac ymchwil academaidd o fewn darparwyr AU. Mae enghreifftiau o gontractau o'r fath yn cynnwys y rhai ar gyfer is-gangellorion, ymarferwyr meddygol, deintyddion, milfeddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n cyflawni gweithgareddau darlithio neu ymchwil. |
| Aegrotat | Weithiau, gellir dyfarnu gradd aegrotat i fyfyriwr nad yw'n gallu sefyll arholiadau oherwydd salwch; gradd anrhydedd heb ddosbarthiad yw hon, a ddyfernir ar y ddealltwriaeth pe na bai'r ymgeisydd wedi bod yn sâl, y byddai wedi llwyddo. |
| Contract annodweddiadol | Gweler adran 2 o Atodiad B. |
| Staff ar gontract annodweddiadol | Staff ar gontract annodweddiadol yw'r staff hynny ar gontractau annodweddiadol **yn unig** h.y. efallai fod ganddynt un neu fwy o gontractau o fewn y flwyddyn academaidd, a allai fod yn olynol neu'n gyfamserol, ond mae eu holl gontractau'n annodweddiadol. Esbonnir contractau annodweddiadol yn adran 2 o Atodiad B. |
| Data croestoriadol | Data sy'n ei gwneud yn bosibl dadansoddi o fewn a rhwng grwpiau o bobl yn seiliedig ar ddwy nodwedd bersonol neu fwy, e.e. hil a rhyw. |
| Staff ar gontract anacademaidd | Diffinnir staff ar gontract anacademaidd fel aelodau o staff nad ydynt yn ddeiliaid contract academaidd, gan gynnwys rheolwyr, gweithwyr proffesiynol anacademaidd, gweithwyr lles myfyrwyr, ysgrifenyddion, gofalwyr a glanhawyr. |
| Cyfradd gynigion | Cyfran y ceisiadau sy'n cael cynnig gan ddarparwr addysg uwch |
| Darparwyr addysg uwch Cymru | Prifysgol De Cymru<br>Prifysgol Aberystwyth<br>Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol Metropolitan Caerdydd<br>Prifysgol Wrecsam<br>Y Brifysgol Agored yng Nghymru<br>Prifysgol Cymru<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges<br>Coleg Gŵyr Abertawe |